# Cais i bleidleisio drwy'r post yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol yng Nghymru

Y Comisiwn Etholiadol

## Pleidleisio drwy'r post

Mae'r ffurflen hon ond yn gymwys yng Nghymru.

Mae'n rhaid eich bod yn gymwys i bleidleisio ac wedi cofrestru i gael pleidlais bost.

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais i bleidleisio drwy'r post yn y Senedd ac mewn etholiadau cynghorau lleol.

Gallwch wneud cais i bleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiad penodol, ar gyfer cyfnod penodol o amser neu hyd nes y clywir yn wahanol.

Bydd angen i chi ddefnyddio ffurflen wahanol i wneud cais am bleidlais drwy'r post yn etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

I gael rhagor o wybodaeth am bleidleisio drwy'r post a ffyrdd eraill o wneud cais, ewch i **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

Gellir anfon pleidleisiau post i gyfeiriadau yn y DU a thramor.

## Sut y gallaf wneud cais i bleidleisio drwy'r post?

- Llenwch y ffurflen gais pleidleisio drwy'r post.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau pob rhan angenrheidiol o'r ffurflen ac yn rhoi eich dyddiad geni a'ch llofnod. Mae angen yr wybodaeth hon er mwyn atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.
- **Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.** Mae ei manylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

**Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol.**

Y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd eich cais pleidlais bost yw **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn dyddiad yr etholiad.**

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru i bleidleisio, rhaid i chi wneud cais i gofrestru cyn gwneud cais am bleidlais bost. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yw **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.** Cofrestrwch i bleidleisio ar-lein yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.**

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Bydd eich swyddfa cofrestru etholiadol leol yn cadarnhau a yw eich cais wedi'i dderbyn neu ei wrthod.
- Pan gynhelir etholiad, anfonir eich papur pleidleisio atoch drwy'r post.
  I gael rhagor o wybodaeth am ddosbarthiad y pecyn pleidleisio drwy'r post, gallwch gysylltu â'r swyddfa etholiadau yn eich cyngor lleol.
- Bydd eich pecyn pleidleisio drwy'r post yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer pleidleisio drwy'r post a dychwelyd eich pleidlais bost.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dychwelyd eich pleidlais bost fel ei bod yn cyrraedd erbyn y dyddiad cau, neu ni chaiff ei chyfrif.

## Datganiad preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth bersonol y byddwch yn ei rhoi gyda'r ffurflen gais hon.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd Data at ddibenion deddfwriaeth diogelu data. Eu sail gyfreithlon dros gasglu'r wybodaeth bersonol yw bod angen gwaith prosesu er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd, fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a rheoliadau cysylltiedig.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol brosesu eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. I gael rhagor o wybodaeth, dylech gyfeirio at ei hysbysiad preifatrwydd. Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad ei wefan a'i fanylion cyswllt yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

# Cais i bleidleisio drwy'r post yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol yng Nghymru

## Dim ond un person a all gofrestru i bleidleisio drwy'r post gan ddefnyddio'r ffurflen hon

Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU. Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen, anfonwch hi i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol. Gallwch ddod o hyd i'w gyfeiriad yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

## 1 Amdanoch chi

Cyfenw

Enw(au) cyntaf (yn llawn)

Eich cyfeiriad (ble rydych wedi cofrestru i bleidleisio)

Cod post

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Mae nodi eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn yn rhoi ffordd gyflym a hawdd i ni gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

## 3 Am faint hoffech chi gael pleidlais drwy'r post?

Hoffwn bleidleisio drwy'r post (ticiwch un blwch):

☐ hyd nes y rhoddir gwybod fel arall (pleidlais bost barhaol)

☐ ar gyfer yr etholiadau a gynhelir ar

D D M M B B B B

☐ am y cyfnod o

rhwng D D M M B B B B

a D D M M B B B B

## 2 Cyfeiriad ar gyfer papur pleidleisio (mae hwn ond yn ofynnol os yw'n wahanol i'r cyfeiriad rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio ynddo)

Anfonwch fy mhapur pleidleisio i (cyfeiriad):

Cod post

Y rheswm pam yr hoffwn i'm papur pleidleisio gael ei anfon i'r cyfeiriad hwn, ac nid i'm cyfeiriad cofrestredig yw:

## 4 Eich dyddiad geni a datganiad

**Datganiad:** Hyd y gwn i, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir.

Rwy'n deall ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth anwir ar y ffurflen hon, ac y gallwn gael carchar am hyd at ddwy flynedd a/neu gael dirwy.

**Dyddiad geni:** Nodwch eich dyddiad geni yn y blychau isod gan ddefnyddio inc du.

D D M M B B B B

**Llofnod:** Llofnodwch isod gan ddefnyddio inc du, gan gadw o fewn y llinellau llwyd.

Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.

## 5 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw D D M M B B B B